

Hysbysiad Preifatrwydd

This report is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Hysbysiad Preifatrwydd¹

Cynnwys

Yr hyn rydym yn ei wneud	4
Sut rydym yn gweithio gyda chi	4
<i>Gohebiaeth y Prif Arolygydd.....</i>	<i>4</i>
<i>Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref.....</i>	<i>4</i>
<i>Cyfathrebu</i>	<i>5</i>
<i>Cwynion ynglŷn â'n staff.....</i>	<i>5</i>
<i>Pryderon</i>	<i>5</i>
<i>Gweithgareddau ymgysylltu</i>	<i>5</i>
<i>Ymholiadau.....</i>	<i>5</i>
<i>Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Mynediad i Destun Data</i>	<i>6</i>
<i>Colegau Addysg Bellach, Ysgolion Preswyl ac Ysgolion Arbennig Preswyl ..</i>	<i>6</i>
<i>Gwasanaethau Gofal a Darparwyr Cofrestredig.....</i>	<i>6</i>
Y mathau o wybodaeth rydym yn eu dal	6
Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth	7
Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth	8
Y rhai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â nhw	9
<i>Gwefan (yn cynnwys AGC Ar-lein)</i>	<i>9</i>
<i>Chwythu'r chwiban</i>	<i>10</i>
Eich hawliau	10
Cysylltiadau	10

Yr hyn rydym yn ei wneud

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), fel rhan o Lywodraeth Cymru, yw rheoleiddiwr annibynnol gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni ein gwaith yn effeithiol ac yn unol â'r rheoliadau statudol,² mae'n rhaid i ni gasglu, dal a defnyddio mathau penodol o wybodaeth am bobl. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth y gellid adnabod unigolion penodol oddi wrthi, a gwybodaeth sy'n sensitif i'r unigolion dan sylw. Wrth reoleiddio gwasanaethau a ddarperir i blant ac oedolion sy'n agored i niwed, rydym yn ceisio lleihau neu waredu risgiau i'w llesiant a sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn gweithredu yn ôl y gyfraith.

Sut rydym yn gweithio gyda chi

Gohebiaeth y Prif Arolygydd

Pan ydych yn gohebu â ni, mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn yr un modd ag y mae ar lefel gorfforaethol ar gyfer staff Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarganfod sut mae'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn y modd hwn trwy edrych ar [Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru](#)¹.

Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref

Gweithredir y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref gan AGC ac fe'i hawdurdodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n gynllun gwirfoddol sydd wedi'u seilio ar ganiatâd. Nid yw AGC yn cofrestru nanis, ond gallwch gael gwiriad ar gyfer gofal plant yn y cartref trwy'r cynllun. Mae'r cynllun ond yn berthnasol i nanis sy'n darparu gofal yng Nghymru. Mae angen ei adolygu yn flynyddol ac mae'n cael ei gwblhau trwy ffurflen gais sy'n cael ei lawrlwytho. Mae'r ffurflen gais yn darparu eich manylion personol, eich hyfforddiant gofal plant a chymorth cyntaf ac mae'n cynnwys gwiriad o gofnodion troseddol.

Mae'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu yn cael ei phrosesu yn y ffyrdd hyn:

- i asesu eich sgiliau, addasrwydd a chymhwysedd ar gyfer cymeradwyaeth
- (fel gwybodaeth ddienw) at ddibenion gwerthuso'r cynllun hwn ac ar gyfer ymchwil.

Dyma'r cyfnodau cadw sy'n berthnasol i'r wybodaeth rydych yn ei chyflenwi:

- Mae dogfennau'r cais yn cael eu cadw am dair blynedd ar ôl y cais
- Mae gwybodaeth y cais y cael ei gadw am chwe blynedd ar ôl i'r cadarnhad ddod i ben
- Mae gwybodaeth ymchwil dienw yn cael ei chadw yn unol â pholisi corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Mae eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â CThEM. Bydd yn cael ei rhannu gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd os byddwch yn rhoi eich caniatâd i ni

¹ <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

wneud hyn yn y ffurflen gais. Rhennir y wybodaeth hon er mwyn galluogi i rieni ddod i wybod am ofalwyr plant yn y cartref sydd wedi'u cymeradwyo ac sydd ar gael yn eu hardaloedd.

Cyfathrebu

Rydym yn casglu delweddau, fideos, ysgrifau portread yn ogystal â sylwadau ysgrifenedig, adolygiadau ac adroddiadau personol ar gyfer cyfathrebiadau pellach er mwyn hyrwyddo ein gwaith, addysgu ac ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid. Defnyddir y rhain dros nifer o sianeli cyfathrebu gwahanol sy'n cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan a chyflwyniadau. Caiff eich gwybodaeth ei hadolygu bob deng mlynedd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol i'r dibenion hyn. Bydd y wybodaeth bersonol hon yn cael ei defnyddio gyda'ch caniatâd yn unig, a gellir tynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl trwy gysylltu â ni.

Cwynion ynglŷn â'n staff

Ymdrinnir â chwynion am ein staff ar lefel gorfforaethol yn Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarganfod sut mae'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn y modd hwn trwy edrych ar [Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru](#)².

Pryderon

Pan fyddwn yn derbyn pryder sy'n ymwneud â darparwyr neu wasanaethau gofal, byddwn yn cydnabod hyn ac yn ceisio ymateb yn brydlon. Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth ymhellach yn unol â'r rheoliadau diogelu sy'n rheoli ein gweithgareddau (gweler [Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth](#)). Cedwir eich cyfathrebiad am dair blynedd ar ôl datrys y broblem yn foddhaol. Fodd bynnag, os yw'r pryder yn arwain at arfer swyddogaethau rheoleiddio eraill (e.e. gweithgareddau gorfodi) bydd y cyfnodau cadw ar gyfer y swyddogaethau hynny yn berthnasol (gweler [Pa mor hir yr ydym yn cadw'ch gwybodaeth](#)).

Gweithgareddau ymgysylltu

Rydym yn ymgymryd â nifer o weithgareddau ymgysylltu gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebiadau cyffredinol, digwyddiadau rhanddeiliaid a gweithgorau. Mae'r rhain yn cael eu trin yn yr un modd ag ar lefel gorfforaethol yn Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarganfod sut mae'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn y modd hwn trwy edrych ar [Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru](#)³.

Ymholiadau

Pan fyddwch yn anfon ymholiad atom bydd yn cael ei brosesu yn yr un modd ag ar lefel gorfforaethol ar gyfer staff Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarganfod sut mae'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn y modd hwn trwy edrych ar [Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru](#)⁴.

² <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

³ <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

⁴ <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Mynediad i Destun Data

Pan fyddwch yn anfon ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu Fynediad i Destun Data, bydd y rhain yn cael eu trin fel rhan o broses corfforaethol Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarganfod sut mae'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn y ffyrdd hyn trwy edrych ar [Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru](#)⁵.

Colegau Addysg Bellach, Ysgolion Preswyl ac Ysgolion Arbennig Preswyl

Rydym yn gweithredu ein swyddogaethau rheoleiddiol gyda Cholegau Addysg Bellach, Ysgolion Preswyl ac Ysgolion Arbennig Preswyl, trwy ddefnyddio'r un prosesau yn y pen draw a wnawn ar gyfer [gwasanaethau cofrestredig](#). Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys arolygiadau, diogelu a phryderon yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol i weithredu'r swyddogaethau hyn. Fodd bynnag, nid oes angen cofrestru gwasanaethau o'r fath o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac felly nid oes gan AGC yr un pwerau gorfodi. Prif gynnyrch ein harolygiadau yw adroddiadau dienw sydd ar gael yn gyhoeddus a gyhoeddir ar ein gwefan.

Gwasanaethau Gofal a Darparwyr Cofrestredig

Y mathau o wybodaeth rydym yn eu dal

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol, mae'n rhaid i ni gasglu a dal gwybodaeth bersonol. Mae gwybodaeth bersonol yn wybodaeth y gellid adnabod unigolyn oddi wrthi. O dro i dro, gallai'r wybodaeth hon fod yn sensitif o ran ei natur (er enghraifft, gallai fod ynglŷn ag iechyd neu gofnod heddlu unigolyn). Mae rhestr isod o'r prif fathau o wybodaeth rydym yn eu casglu a'u dal. Mae natur ein gwaith yn golygu na allwn wybod ymlaen llaw'r holl fathau o wybodaeth bersonol a gaiff eu cyflwyno i ni ac y bydd angen i ni eu casglu a'u cadw er mwyn bodloni gofynion ein swyddogaethau rheoleiddiol.

- Gwybodaeth gyffredinol
 - Enw, cyfeiriad, dyddiad geni, oedran, rhyw, dewisiadau iaith a chyfathrebu, manylion cyswllt, geiradaon, copïau o ddogfennau adnabod ffotograffig
- Gwybodaeth am y darparwr/gwasanaeth
 - Enw defnyddiwr a PIN AGC Ar-lein, manylion cofrestru gyda chyrff eraill fel rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru, cofnodion ariannol, cymwysterau a hyfforddiant, hanes y gwasanaeth
- Meddygol
 - Cynlluniau gofal, adroddiadau meddygol, cofnodion meddyginiaeth
- Gorfodi'r gyfraith
 - Cofnodion yr heddlu, euogfarnau, honiadau o gamymddwyn yn y gwaith, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gweithgareddau diogelu a gorfodi
 - Gweithgareddau gorfodi, amodau amddifadu o ryddid, manylion atgyfeiriadau amddiffyn plant, cyhuddiadau o gam-drin

⁵ <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth

Mae'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu a'i phrosesu yn galluogi gwerthuso perfformiad darparwyr gwasanaeth ac awdurdodau lleol a'u cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol. O ran awdurdodau lleol, y diben yw gwerthuso a yw awdurdod lleol wedi bodloni ei swyddogaethau statudol. Mae hyn yn golygu dadansoddi gwybodaeth a gasglwyd yn ystod arolygiadau a llunio adroddiadau. Caiff yr adroddiadau hyn eu rhannu gyda darparwyr gwasanaeth ac awdurdodau lleol cyn cael eu cyhoeddi a gallent fod yn destun gohebiaeth rhyngom a'r darparwr / awdurdod lleol cyn bod yr adroddiad yn derfynol ac yn cael ei gyhoeddi.

Mae galw arnom hefyd i gymryd rhan mewn gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion: caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu i gefnogi penderfyniadau gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill gyda chyfrifoldebau statudol dros amddiffyn plant ac oedolion. Caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu hefyd, i'r graddau angenrheidiol, er mwyn cefnogi gweithredu troseddol neu sifil yn erbyn darparwyr gwasanaeth neu i gefnogi ymyriadau yn erbyn awdurdodau lleol sy'n ddiffygiol neu a allai fod yn ddiffygiol o ran eu dyletswyddau statudol.

Gallai gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu wrth gyflawni ein swyddogaethau o atgyfeirio unigolion i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu atgyfeirio unigolion i gyrff rheoleiddiol proffesiynol. Gallai gwybodaeth bersonol hefyd gael ei rhannu gyda chyrff rheoleiddiol neu gyrff gorfodi'r gyfraith eraill lle y bo'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, neu pan fo rhannu'r wybodaeth yn gyson â'n swyddogaethau statudol.

Mae'r union brosesau rydym yn rhan ohonynt yn cynnwys:

Cofrestru

- Darparu mynediad ar-lein diogel ar gyfer darparwyr gwasanaeth
- Cynnal gwiriadau 'addasrwydd' ar ymgeiswyr sy'n cofrestru
- Cofrestru darparwyr a gwasanaethau
- Darparu cofrestr gyhoeddus o ddarparwyr a gwasanaethau

Arolygiadau

- Arolygu darparwyr a gwasanaethau
- Arolygu cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol
- Prosesu hysbysiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau cofrestredig

Diogelu

- Monitro'r gwaith o ddiogelu pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys pan fo rhaid i unigolion gael eu hamddifadu o'u rhyddid
- Cymryd rhan mewn penderfyniadau ac archwiliadau diogelu amlasiantaeth pan gredir bod pobl wedi cael eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin

Gorfodi

- Gorfodi gofynion rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r gwasanaethau
- Cymryd camau gorfodi troseddol a sifil

Gwasanaethau cymorth

- Trefnu digwyddiadau, cyfarfodydd ac ymgynghoriadau
- Llunio deunydd cyfathrebu ymgysylltu, gan gynnwys cylchlythyrau
- Casglu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth oddi wrth ddarparwyr gwasanaeth
- Gweinyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer darparwyr gwasanaeth
- Ymateb i ymholiadau gwasanaeth cyffredinol

Yn ogystal â'r prosesau uchod, rydym hefyd yn defnyddio a rhannu gwybodaeth ddienw i wneud y canlynol:

- Cynhyrchu adroddiadau blynyddol sydd ar gael i'r cyhoedd (e.e. Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; adroddiad blynyddol AGC) ac adroddiadau thematig (e.e. darpariaeth anabledd dysgu yng Nghymru)
- Paratoi dadansoddiadau ystadegol
- Cefnogi ymchwil neu ymgynghoriadau a gomisiynwyd gan Weinidogion Cymru
- Darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru i'w helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau polisi

Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth

Gwybodaeth yn ymwneud â:	Cyfnod cadw
Mynediad at AGC Ar-lein	Chwe blynedd ar ôl dadgofrestru'r gwasanaeth
Cofrestriad	Gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gofrestru: cedwir tan ei gofrestru Gwasanaeth cofrestredig: chwe blynedd ar ôl dadgofrestru'r gwasanaeth Dogfennau cais: tair blynedd ar ôl penderfynu ar y ceisiadau Gwasanaethau a wrthodwyd neu y cafodd gamau gorfodi: cyfnod amhenodol
Arolygu darparwyr a gwasanaethau	Chwe blynedd ar ôl cyhoeddi adroddiad
Hysbysiadau	Tair blynedd ar ôl derbyn hysbysiad
Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid	Tair blynedd o ganlyniad i hysbysiadau Chwe blynedd o ganlyniad i arolygiadau
Gweithgareddau gorfodi	Tair blynedd o ddiwedd y gweithgaredd gorfodi
Digwyddiadau, cyfarfodydd, ymgynghoriadau, cylchlythyrau a bwletinau	Tan ddadgofrestru'r gwasanaeth
Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth	Chwe blynedd o gyhoeddi'r adroddiad arolygu nesaf
Ardystiad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Yn unol â pholisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
Gwybodaeth ystadegol ddienw	Yn unol â pholisi corfforaethol Llywodraeth Cymru

Y rhai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â nhw

Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill pan fo'n gyfreithlon i ni wneud hynny. Fel arfer, mae hyn er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddiogelu a rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed neu brosesau cyfreithlon angenrheidiol y sefydliadau eraill. Gallem rannu eich gwybodaeth â'r sefydliadau a nodir isod, neu gasglu gwybodaeth amdano chi oddi wrthynt. Mae'r rhannu hwn yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a chaiff ei lywodraethu gan gytundebau ffurfiol (mae ceisiadau ad hoc yn cael eu llywodraethu gan yr un rheolaethau) sy'n profi'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu'r wybodaeth honno cyn iddi gael ei rhannu.

Mae'r sefydliadau y mae gennym gytundebau rhannu gwybodaeth â nhw yn cynnwys:

- Gwasanaethau ariannol
 - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Awdurdodau lleol
 - Gwasanaethau cymdeithasol
 - Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant
- Gwasanaethau brys
 - Yr Awdurdodau Tân ac Achub
 - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cyrff rheoleiddiol
 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
 - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
 - Swyddfa Archwilio Cymru
 - Swyddfa Safonau mewn Addysg
 - Estyn
 - Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
 - Gofal Cymdeithasol Cymru
 - Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
 - Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
- Gorfodi'r gyfraith
 - Yr heddlu
 - Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Gwefan (yn cynnwys AGC Ar-lein)

Mae gan ein gwefan [polisi preifatrwydd](https://arolygiaethgofal.cymru/polisi-preifatrwydd)⁶ sy'n esbonio sut y mae'n trin eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn ymweld â'r gwefan. Os byddwch yn defnyddio eich cyfrif AGC Ar-lein, sy'n caniatáu mwy o fynediad i'n gwasanaethau trafodion, mae gan hwn [bolisi preifatrwydd AGC Ar-lein](https://arolygiaethgofal.cymru/polisi-preifatrwydd-ar-lein-agc)⁷ ei hun.

⁶ <https://arolygiaethgofal.cymru/polisi-preifatrwydd>

⁷ <https://arolygiaethgofal.cymru/polisi-preifatrwydd-ar-lein-agc>

Chwythu'r chwiban

Pan fyddwch yn cysylltu â ni am achos o chwythu'r chwiban, byddwn yn penderfynu o fewn saith diwrnod pa gamau sydd eu hangen. Pan fydd hyn yn codi unrhyw [bryderon](#) sy'n ymwneud â [gwasanaethau gofal a darparwyr cofrestredig](#), bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn unol â'r prosesau cysylltiedig sy'n rheoli'r rhain.

Eich hawliau

Ar gyfer yr holl wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- cael mynediad at y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu amdanoch chi
- gofyn i ni gywiro unrhyw wallau yn y wybodaeth honno
- (mewn rhai amgylchiadau) gwrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth
- dileu eich gwybodaeth
- gwneud cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data (gweler [Cysylltiadau](#))

Yn ogystal, pan fyddwch chi wedi rhoi caniatâd i ni dderbyn gwybodaeth bersonol (er enghraifft, er mwyn i chi dderbyn ein cylchlythyr ar gyfer y Cynllun Cymeradwyo Nanis), mae gennym yr hawl i wneud y canlynol:

- diddymu caniatâd
- gwneud cais am eich gwybodaeth mewn fformat digidol sy'n hawdd cael mynediad ato

Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, sylwer y gallai fod rhai eithriadau i'r hawliau hyn o dan amgylchiadau penodol – er enghraifft, pan fo diogelu eraill mewn perygl neu mae camau gorfodi cyfreithiol yn mynd rhagddynt.

Cysylltiadau

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â gwybodaeth bersonol benodol y mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei chadw, defnyddiwch y manylion cyswllt yma:

Rheolwr Gwybodaeth
Arolygiaeth Gofal Cymru
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

E-bost: CIWInformation@gov.wales
Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Os oes gennych unrhyw bryderon o ran y rheolaethau gwybodaeth o fewn Llywodraeth Cymru, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru
Gwefan: www.llyw.cymru

Ar gyfer cyngor annibynnol o ran y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

¹ A enwyd yn 'Hysbysiad Prosesu Teg' gennym gynt.

²Rydym yn casglu a chadw gwybodaeth am bobl yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth a restrir isod a'r rheoliadau cysylltiedig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth honno yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Prosesu Data Cyffredinol.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Deddf Safonau Gofal 2000

Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd)

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Deddf Credydau Treth 2002